Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

National Assembly for Wales
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Owen Evans
Prif Weithredwr S4C
Canolfan S4C
Yr Egin
Caerfyrddin SA31 3EQ

Dydd Mercher 25 Medi 2019

Annwyl Owen,

Ynghylch: Peidio darlledu Newyddion 9 nos Fawrth 24 Medi 2019

Rwy'n ysgrifennu atoch yn sgil y penderfyniad i beidio darlledu Newyddion 9 neithiwr (nos Fawrth 24 Medi 2019), ac yn ei le i ddarlledu *Chwilio am Seren Junior Eurovision 2019*.

Roedd y penderfyniad hwn yn un a achosodd gryn bryder imi yn ei hanfod. Rwyf wrth gwrs yn deall bod pob darlledwr weithiau yn newid pa amser caiff y newyddion ei ddarlledu oherwydd rhaglenni eraill, ond mae peidio darlledu'r newyddion o gwbl yn amlwg yn golygu nad oedd unrhyw newyddion cyfrwng Cymraeg ar y teledu neithiwr, heb law am fwletin am 6 pm.

Mae hynny'n peri gofid arbennig o ystyried popeth a ddigwyddodd ddoe. Fel y gwyddoch, roedd yn ddiwrnod gwleidyddol arwyddocaol, gyda'r Goruchaf Lys wedi penderfynu yr oedd ymgais Prif Weinidog y DU i addoedi Senedd y DU yn anghyfreithlon ac yn ddi-rym.

Trwy beidio darlledu'r newyddion o gwbl, gan eithrio'r bwletin cynharach, ar noson mor hanesyddol, nid oedd modd i wylwyr S4C dderbyn unrhyw ffeithiau, sylwebaeth, dadansoddiad, na barn am fater sydd o bwys sylfaenol i'r cyfansoddiad ac i'r ddadl ynglŷn â Brexit. Mae hynny, wrth gwrs, yn ogystal â holl newyddion arall ddoe.

Mewn gwirionedd, byddwn i wedi disgwyl neu obeithio am raglen estynedig neithiwr o ystyried popeth a ddigwyddodd ddoe a'r angen am sylwebaeth arno.

Wrth gwrs, daw penderfyniad neithiwr wedi'r penderfyniad yn gynharach eleni i newid amserlen S4C, ac mae'n rhaid imi ddweud, nid wyf wedi fy llenwi â hyder bod

"ymrwymiad sylweddol i newyddion gan S4C", fel y dywedasoch yn eich llythyr ataf dyddiedig 22 Mai eleni, os gwaredir ar y newyddion mor rhwydd ar ddiwrnod mor arwyddocaol er mwyn darlledu rhaglen *Eurovision*.

Mewn ymateb, hoffwn i chi ymdrin â'r pum cwestiwn yma os gwelwch yn dda:

1. Beth oedd sail y penderfyniad i beidio darlledu Newyddion 9 neithiwr?
2. Pa drafodaethau cafwyd o flaen llaw rhwng S4C a'r BBC ynglŷn â darlledu Newyddion 9 yn sgil yr hyn a ddigwyddodd ddoe?
3. Pa ystyriaeth roddwyd i fwrw ymlaen gyda Newyddion 9 yn sgil datblygiadau cyfreithiol a gwleidyddol arwyddocaol y dydd?
4. Heb ddarlledu Newyddion 9, sut sicrhawyd fod ffeithiau, sylwebaeth, dadansoddiad a barn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neithiwr?
5. Beth yw canllawiau neu safonau S4C ynglŷn â darlledu neu beidio darlledu'r newyddion yn sgil materion cyhoeddus arwyddocaol?

Gyda diolch o flaen llaw i chi am roi sylw buan i'r mater hwn.

Yn gywir,

Bethan Sayed.

Bethan Sayed AC
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

27.09.2019

Bethan Sayed
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCWLC@assembly.wales

Amserlen nos Fawrth 24 Medi 2019

Annwyl Bethan

Diolch am dy lythyr ynglŷn â'r ddarpariaeth newyddion. Rwy'n derbyn dy sylwadau ac wrth edrych yn ôl rwy'n cydnabod y dylai ein hamserlen fod wedi cynnwys rhaglen newyddion arferol yn yr oriau brig nos Fawrth ddiwethaf yn sgil y digwyddiadau hanesyddol. Mae hyn yn fater o bwys i mi, fel ag y mae i tithau, gan fod sicrhau gwasanaeth sy'n cyflwyno'r newyddion, a dadansoddi materion y dydd yn holl bwysig i S4C fel darlledwyr cyhoeddus.

Rwyt ti'n ymwybodol bod gennym ni ddarllediad byw, Chwilio am Seren, yn ein hamserlen ar y noson hon. Pan ddaeth hi i'r amlwg fore Mawrth bod y Goruchaf Lys wedi dod i ddyfarniad mor drawiadol, fe wnaethom ein gorau i ymateb dan gyfyngiadau'r amserlen oedd wedi ei chynllunio.

Cafwyd rhaglen newyddion estynedig gan y BBC am 18.00, a gofynnwyd i ITV i addasu'r bennod o'r Byd yn ei Le oedd i gael ei darlledu am 21.30 i gynnwys dadansoddiad estynedig o'r dyfarniad.

Yn sicr, fe ddylai fod gennym hefyd raglen newyddion arferol, ond doedd dim modd ail-drefnu hynny ar y diwrnod. Felly, ar yr adegau prin pan fydd angen symud y newyddion yn y dyfodol, byddwn yn sicrhau y bydd yna raglen newyddion deilwng yn yr oriau brig. Er enghraifft, mis nesaf, pan fydd tîm pêl-droed Cymru yn chwarae Slofacia, bydd prif raglen newyddion y dydd yn cael ei darlledu cyn y gêm, am 19:00.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym wedi sôn wrthyt eisoes am ein cynlluniau i symud y brif raglen newyddion i slot newydd cyson am 19.30. Un o'r rhesymau am y newid hynny yw er mwyn rhoi cartref sefydlog i'r rhaglen, gan y bydd llai o alw i'w symud oherwydd digwyddiadau byw.

Gallaf dy sicrhau bod y gwasanaeth newyddion yn bwysig i mi ac yn allweddol i'r sianel, ac rydym wedi dechrau trafodaethau gyda'r BBC i ehangu'r ochr ddigidol er mwyn darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr sy'n symud gyda'r oes. Efallai y byddai'n werthfawr i ni drefnu cyfarfod yn fuan, er mwyn i mi a Chomisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes S4C rannu'n gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth.

Gyda llaw, fe glywais i bod gen ti newyddion cyffrous i'w rannu hefyd. Llongyfarchiadau gwresog i ti.

Yn gywir,

Owen Evans

Prif Weithredwr